**Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Chwefror 9fed 2015 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Roy Tickle, Gaynor Wood, Catherine Jones (cyrhaeddodd 6.48pm) a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Shereen Devine, Philip Stevens.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler ac 13 aelod o'r cyhoedd.

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng. Raymond Bartley gyda'r Cyng. Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio .

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**187. Cyflwyniad gan Sandy Williams, Swyddog Datblygu Busnes, Undeb Credydd Gogledd Cymru.** Yn anffodus dywedwyd na fyddai'r cyflwyniad yn mynd ymlaen.

**188. Datgan Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng. Raymond Bartley - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(2) Cyng. Raymond Bartley - eitem agenda A1(1) - Cynllunio - tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws a holl faterion cynllunio
(3) Cyng. Roy Tickle - eitem agenda A1(1) - Cynllunio - tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws.
(4) Cyng.Roy Tickle - eitem agenda A1(2) - Cynllunio - Minffordd, Ffordd y Rhyl.
(5) Cyng. Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(6) Cyng. Colin Hughes - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(7) Cyng. Gaynor Wood - eitem agenda A1(2) - Cynllunio - Minffordd, Ffordd y Rhyl.
(8) Cyng., Gaynor Wood - eitem agenda A1(3) - Cynllunio - Coedwig ger Lleweni, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug.
(9) Cyng. Roy Tickle - eitem agenda A1(3) - Cynllunio - Coedwig ger Lleweni, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug.

**A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>**

**167.** (1) **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.**

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Llys y Coed, Ffordd Ystrad

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Rhan o Ardd Minffordd, Ffordd y Rhyl, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais ond i fynegi pryderon ynglŷn ag argaeledd mannau parcio o flaen y ddau dy y sonnir amdanynt ac i ofyn y cwestiwn os oedd y mannau a fwriadwyd yn y cais yn cydymffurfio a pholisi'r cyngor ar fannau parcio.

Ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd ar gyfer Coedwig ger Lleweni, Lleweni Parc, Ffordd yr Wyddgrug, cytunwyd i ohirio penderfyniad er mwyn ymofyn am wybodaeth bellach ac eglurhad oddi wrth adran cynllunio CSDd ar bolisi Sir Ddinbych ar garafanau crwydro a goblygiadau'r ddarpariaeth 28 diwrnod.

Ynglŷn â'r cais a dderbyniwyd ar gyfer tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws (gohiriwyd o 26.1.15), yn dilyn ystyriaeth ac argymhelliad yr is bwyllgor archwiliad cynllunio, **Penderfynwyd** (saith pleidlais i un gyda thair pleidlais wedi eu hatal) **fod y cyngor tref yn gwrthwynebu'r cais.** Y gwrthwynebiad, fel y dangoswyd ar geisiadau blaenorol, oedd unwaith eto wedi ei sefydlu ar faterion diogelwch ar Ffordd Ystrad a Lôn Dewi Sant a hefyd diogelwch rhai ac anabledd oedd yn defnyddio'r llwybr a awgrymir. Gadawodd y Cyng Roy Tickle, gan ei fod wedi datgan diddordeb niweidiol, y siambr tra trafodwyd y mater yma.

(2) Materion Cynllunio eraill: Nid oedd unrhyw fater arall.

*Yn y man yma gadawodd y tri ar ddeg aelod o'r cyhoedd y cyfarfod.*

**B. Pwyllgor Cyllid:**

**190. Cyfrifon:** 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Clerc y Dref - costau'n teithio (Rhuthun)<br>(Rhif siec 005555) | - | £6.30 |
| (2) | Marian Ll. Rees - gwasanaeth cyfieithu - 26.1.15<br>(Rhif siec 005556) | - | £102.00 |
| (3) | Timberwise - archwiliad yr hen Lysdy<br>(Cofnod 168(3)(4) yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005557). | - | £1,200.00 |
| (4) | Cymdeithas Gefeillio Dinbych - aelodaeth 2015<br>(Rhif siec 005558) | - | £10.00 |
| (5) | Sodexo - cynnal a chadw gardd goffa Dr E P (Ionawr)<br>(Rhif siec 005559) | - | £605.88 |

Cyfanswm taliadau: £1,924.18

2. Nodwyd adroddiadau ariannol cyfnod **1.4.14 - 31.01.15**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Ystyriwyd y llythyr a derbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru ynglŷn ag aelodaeth hanner pris ar gyfer 2015 a chytunwyd i nodi'r llythyr yn unig. (2) Nodwyd derbyn £1,059.83 sef ad-daliad TAW.

**C. Pwyllgor Materion Cyffredinol:**

**191. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau:** (1) Penderfynwyd nodi 14 eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) Nodwyd yr e-bost oddi wrth Jamie Groves ynglŷn ag ymrwymiad i neuadd y dref ar gyfer 2015/2016. Cytunwyd i ymglymiad y cyngor tref yn rheolaeth neuadd y dref yn y dyfodol fod yn eitem agenda yng nghyfarfod o'r cyngor yn y dyfodol.

(2) Swyddog Twristiaeth CSDd ynglŷn â chynnig i uwchraddio'r ddau fwrdd trywydd y dref yn Ninbych. Trafodwyd y cynnig a mynegwyd gwahanol sylwadau. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i dderbyn y cynnig.**

(3) E-bost oddi wrth Charlie Hobson ynglŷn â gwefan Visit Denbigh. Nodwyd sylwadau Mr Hobson. Trafodwyd y mater. Dywedwyd fod y wefan ac angen gwerthwr i hyrwyddo'r wefan. Roedd tri gweinyddwr ar gyfer y wefan oedd yn ei ddiweddaru. Cyfarfod o'r grŵp llywio i'w drefnu dros y pythefnos i dair wythnos nesaf i drafod ymhellach sut oedd modd gwella hyrwyddiad y wefan.

(4) Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraeth Leol; Grym i Bobl Leol. Cytunwyd i gyfeirio'r ddogfen at yr is bwyllgor archwiliad dogfennau i'w drafod ac adrodd yn ôl i'r cyngor.

(5) Cyfeiriwyd y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Sioe Dinbych a Fflint at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.

(6) E-bost oddi wrth Alyn Ashworth yn gwneud cais am barcio am ddim yn ystod Gŵyl Dydd Gŵyl Dewi ar Chwefror 28ain 2015. Cadarnhaodd clerc y dref fod y cyngor wedi derbyn cadarnhad oddi wrth GSDd y byddai'r cyngor tref yn cael caniatâd fel arfer o bum diwrnod parcio am ddim yn ystod y flwyddyn galendr 2015. Cytunwyd i ganiatáu y cais.

**192. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor.** Nid oedd unrhyw gofnodion / adroddiadau

**193. Adroddiadau**: (1) Gefeillio. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(2) Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf. Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

(3) Grŵp Busnes Dinbych. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle ar gyfarfod diweddar o'r grŵp. Roedd drafft o'r cyfansoddiad yn symud ymlaen. Trefniadau ar gyfer Gŵyl Dydd Gŵyl Dewi mewn llaw. Posibilrwydd o wahanu'r ŵyl eirin oddi wrth y grŵp busnes oherwydd rhesymau ariannol. Sioe i'w threfnu i hyrwyddo busnesau Dinbych.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**194. Moderneiddio**. Gohiriwyd y mater yma o Ionawr 26ain 2015. Ystyriwyd adroddiad ysgrifenedig tair tudalen clerc y dref a baratowyd gan glerc y dref yn dilyn cyfarfod o'r gweithgor moderneiddio. Arweiniodd cadeirydd y gweithgor, y Cyng. Colin Hughes yr aelodau drwy'r adroddiad ac ymhelaethodd ar wahanol rannau fel bo modd. Hefyd cafwyd eglurhad gan glerc y dref ar un neu ddau o faterion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad. Trafodwyd yr adroddiad a chafwyd nifer o gwestiynau a sylwadau: (1) Diolchodd nifer o'r aelodau i'r gweithgor am y gwaith a wnaed a derbyn yr argymhellion. (2) Mynegodd nifer o'r aelodau eu pryderon ynglŷn ag amseroedd y ddau bwyllgor datganoledig a awgrymwyd. (3) Cyfleusterau cyfieithu ym mhob pwyllgor. (4) Sut a pha bryd y cytunir ar aelodaeth y ddau bwyllgor. (5) Pwy fydd yn cofnodi cyfarfodydd y ddau bwyllgor. (7) Bydd rhaid cwestiynu penderfyniadau pwyllgor o saith ynglŷn â cheisiadau cymorthdaliadau. (8) Adroddiad ardderchog ac roedd moderneiddio'r cyngor ar ei ffordd. (9) Effaith papur gwyn diweddar Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol ar gynigion moderneiddio'r cyngor. (10) Roedd yr adroddiad yn dangos y ffordd orau ymlaen. (11) Roedd syniad o arbrawf tri mis yn un da.
Aeth y cyfarfod ymlaen i ystyried yr argymhellion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad:
**Penderfynwyd** (yn unfrydol ymhob awgrym) i
**(1) Sefydlu dau bwyllgor datganoledig gyda phwerau llawn i weithredu - (1) Cyllid ac Amgylchedd a (2) Cynllunio.**
**(2) Yr is-bwyllgor archwiliad dogfennau i barhau yn is-bwyllgor.**
**(3) Cyngor llawn i barhau i gyfarfod ar y 4ydd dydd Llun ymhob mis ac eithriad mis Awst ac ar y 3ydd dydd Llun ym mis Rhagfyr.**
**(4) Y ddau bwyllgor datganoledig i gyfarfod ar y 3ydd dydd Llun ymhob mis ac eithrio mis Awst a chyfarfodydd mis Rhagfyr ar yr 2il ddydd Llun yn y mis.**
**(5) Y ddau bwyllgor datganoledig i gyfarfod am 6pm a 7pm yn ôl eu trefn.**
**(6) Y sustem newydd i'w arbrofi am dri mis, sef misoedd Mehefin, Gorffennaf a Medi.**
**(7) Materion gweinyddiaeth y cyngor i'w gohirio am 12 mis.**

**195. Darlithoedd Treftadaeth.** Cyflwynodd clerc y dref wybodaeth am bresenoldeb yn y darlithoedd hyd yn hyn.

**196. Enwebiad am Swydd 2015/2016:**

1. **Maer:** Cynigwyd gan y Cyng. Colin Hughes, ac eiliwyd gan y Cyng. Mark Young fod y Cyng. Raymond Bartley yn cael ei enwebu.

2. **Dirprwy Faer:** Cynigwyd gan y Cyng Roy Tickle ac eiliwyd gan y Cyng. Colin Hughes fod y Cyng. Margaret Bowe yn cael ei henwebu.

Eglurodd clerc y dref, oherwydd y newidiadau a gytunwyd o dan brosiect moderneiddio'r cyngor nad oedd angen enwebiad ar gyfer cadeirydd cynllunio gan fod dau gadeirydd y ddau bwyllgor newydd datganoledig mewn sefyllfa gyfartal.

**197. Diweddariad Clerc y Dref ynglŷn â gohebiaeth Charlie Hobson. Penderfynwyd delio a'r mater yma o dan Ran 2.**

**198. Materion o Ddiddordeb:** 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Cyng Rob Parkes - derbyniwyd cwynion fod goleuadau llawr uchaf y maes parcio aml lawr ddim yn gweithio.
(2) Cyng Rob Parkes - derbyniwyd cwynion fod cerbydau yn parcio mewn mannau ar gyfer gyrwyr anabl ar ddiwrnod marchnad.
(3) Dywedodd y Cyng. Geraint Williams fod ariannu WEFO ar gyfer y lôn beicio bellach ddim ar gael - amser wedi rhedeg allan. Roedd ariannu Sir Ddinbych yn ddiogel.
(4) Dywedodd y Cyng. Colin Hughes fod tyllau ffordd yng Ngolygfa'r Castell wedi eu trwsio.
(5) Cyfeiriodd y Cyng. Medwyn Williams at wybodaeth a dderbyniwyd fod cwrs un dydd ar gael ar sut i wneud y gorau o wefan, ar gost o £120. Cytunwyd fod y Cyng. Medwyn Williams yn mynychu'r cwrs a bod y cyngor yn talu am y cwrs.

Yn dilyn cwblhau'r mater o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.10 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:............................................